Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

# Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 744A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar info.officer@audit.wales.

Y tîm a wnaeth fy helpu i baratoi'r adroddiad hwn oedd Anthony Ford, Ann-Marie Harkin, Jeremy Saunders, Gabrielle Smith a Dave Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 10 |
| Mae'r trefniadau rheoli ariannol yn gadarn ac mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb eto | 10 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau'i threfniadau llywodraethu a sicrwydd ac yn bwrw ymlaen â gwaith ar gynllunio integredig, rheoli risg a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau, er i'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith sicrhau ansawdd fod yn arafach na'r bwriad | 11 |
| Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu, datblygu sefydliadol a rheoli newid, a bod lle i wella'r trefniadau o ran cadw copi wrth gefn o ddata a'i adfer, ac ymgysylltu â'r agenda TGCh glinigol, hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion am amser segur | 20 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 25 |
| Ffi archwilio | 26 |
| Risgiau archwilio arwyddocaol | 27 |

# Adroddiad cryno

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2015

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn â swyddogion a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i rhannwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2016. Caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.audit.wales).

**5.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth am 2014-15, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater.

**6.** Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater.

**7.** Hefyd, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r dyletswyddau ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014, sut y cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.

**8.** Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:

- paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol; ac
- roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

**9.** Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantolir gyllideb ar ddiwedd 2014-15. Nodaf yn fanylach y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, a oedd yn ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth a digonolrwydd ei threfniadau llywodraethu, gan gynnwys trefniadau i gynllunio'n effeithiol a mesur cynnydd o ran llywodraethu ansawdd a threfniadau ers y llynedd. Rwyf hefyd, fel rhan o'r gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, wedi adolygu'r trefniadau i gefnogi defnydd da o adnoddau ac wedi gwneud archwiliad perfformiad o feysydd cyflenwi gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar y casgliadau canlynol.

### Mae'r trefniadau rheoli ariannol yn gadarn ac mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb eto

**11.** Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei bod yn cyrraedd ei thargedau o ran gwneud arbedion a'i thargedau statudol i fantoli'r gyllideb yn gyson. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth warged bach ar ôl brocera £432,000 yn ôl i Lywodraeth Cymru a llwyddodd i wireddu £2.2 miliwn o arbedion erbyn diwedd 2014-15.

**12.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o hyd o ymdrin â rheolaeth ariannol gyda threfniadau trylwyr ar gyfer gosod a monitro strategaeth y gyllideb a nodi arbedion posibl. Mae cynllunio ariannol yn rhan annatod o'r cylch cynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac nid oes proses gosod cyllideb sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Mae'r rheolaeth dros y gyllideb a'r rheolaeth ariannol yn ystod blwyddyn yn dda ac, ym mis saith, mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd cywir i fantoli'r gyllideb drwyddi draw yn 2015-16.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau'i threfniadau llywodraethu a sicrwydd ac yn bwrw ymlaen â gwaith ar gynllunio integredig, rheoli risg a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau, er i'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith sicrhau ansawdd fod yn arafach na'r bwriad

**13.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datgan ei blaenoriaethau strategol ac mae'n datblygu'r capasiti sefydliadol i'w gweithredu ac yn datblygu trefn gynllunio fwy integredig. Yn y cyfamser, mae'r fframwaith risg a fframwaith sicrwydd y bwrdd yn cael eu trawsnewid gyda gwybodaeth ar lefel y bwrdd i gefnogi craffu a sicrwydd a gweithredu i leihau'r risg a allai ddeilio o'r newid sydd ar fin digwydd o ran cyfarwyddwyr anweithredol. Mae trefniadau i wella profiad defnyddwyr gwasanaethau yn mynd rhagddynt ond mae'r gwaith o ddatblygu fframwaith sicrwydd ansawdd wedi mynd yn ei flaen yn arafach na'r disgwyl ac mae rhagor i'w wneud.

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu, datblygu sefydliadol a rheoli newid, a bod lle i wella'r trefniadau o ran cadw copi wrth gefn o ddata a'i adfer, ac ymgysylltu â'r agenda TGCh glinigol, hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion am amser segur

**14.** Adolygodd fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli nifer o elfennau galluogi allweddol, yn arbennig agweddau o reoli newid, datblygu sefydliadol a chynllunio'r gweithlu.
Deuthum i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau'r ffordd y mae'n sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau a'i bod yn gwneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu, datblygu sefydliadol a rheoli newid. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae rhaglenni newid strategol yn sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae gwaith yn parhau i gryfhau'r capasiti a'r gallu ym maes rheoli newid;
- mae datblygu sefydliadol yn rhan annatod o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n sylweddol mewn gallu rheoli ac arwain; ac
- mae'r cynllunio ar y gweithlu wedi cael ei gryfhau a dylai cydleoli staff mewn swyddfeydd newydd yn 2016 helpu i hwyluso mwy o gydweithredu a hyblygrwydd.

**15.** Canfu fy adolygiadau o drefniadau'r Ymddiriedolaeth i gadw copi wrth gefn o ddata ac o'i chapasiti a'i hadnoddau TGCH:

- Fod mesurau rheoli priodol wedi'u sefydlu i ddarparu copïau wrth gefn ac adfer data sy'n cael ei letya a'i gynnal gan yr Ymddiriedolaeth, er bod lle i gryfhau hyn mewn nifer o feysydd, ond mae'r trefniadau i gadw copi wrth gefn o ddata sy'n cael ei reoli gan drydydd partïon yn llai clir.
- Mae lefelau buddsoddi Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymharu'n dda â chyrff GIG eraill Cymru, ond mae ein gwaith diagnostig yn dangos bod modd gwella'r ymgysylltu â'r agenda TGCh, hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion am amser segur.

**16.** Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**17.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr 2015 a mis Rhagfyr 2015.

**18.** Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004[1]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**19.** Mewn perthynas ag c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
- archwiliadau perfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ardystio hawliadau a ffurflenni.

**20.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**21.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon.
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**22.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

**23.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd gennyf yng Nghynllun Archwilio 2015 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

---

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**24.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth am 2014-15.

**25.** Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**26.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**27.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**28.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a’r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac nid oeddent yn cynnwys camddatganiadau perthnasol

**29.** Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 4 Mehefin 2015. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Pryderon am agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol | Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw bryderon o'r fath. |
| Anawsterau sylweddol y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr archwiliad | Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. |
| Materion sylweddol y gwnaethom eu trafod â rheolwyr a gohebu â rheolwyr yn eu cylch y mae angen i ni hysbysu'r Ymddiriedolaeth amdanynt | Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw bryderon o'r fath. |
| Unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | Nid oedd unrhyw faterion o'r fath i'w nodi. |
| Gwendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth. |
| Materion eraill | Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethu eraill. |

**30.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2015, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**31.** Adolygais amgylchedd rheoli'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys ei phrosesau asesu risg a systemau gwybodaeth a gweithgareddau rheoli perthnasol i'r archwiliad.

**32.** Nododd fy adolygiad fod yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn gosod sail ddibynadwy ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol a chyfrannodd hyn at leihau nifer y cywiriadau i'r datganiadau ariannol.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**33.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i roi cynlluniau arbed costau ar waith a'u cyfraniad at y broses o wireddu balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed ers y llynedd yn y meysydd a nodwyd i'w gwella;
- defnydd penodol o waith adnoddau o ran y trefniadau i gadw copi wrth gefn o wybodaeth a chapasiti ac adnoddau TGCh; ac
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth o ran dilyn hynt argymhellion archwilio allanol.

**34.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r trefniadau rheoli ariannol yn gadarn ac mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb eto

### Dangosodd yr Ymddiriedolaeth reolaeth ariannol gadarn yn 2014-15

**35.** Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei bod yn cyrraedd ei thargedau o ran gwneud arbedion a'i thargedau statudol i fantoli'r gyllideb, a hynny'n gyson. Yn 2014-15, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth warged bach (£30,000) ar ôl brocera £432,000 yn ôl i Lywodraeth Cymru. Llwyddodd hefyd i wireddu mwy na £2.2 miliwn o arbedion erbyn diwedd 2014-15. O'r arbedion hynny, roedd £1.8 miliwn yn gylchol a £0.46 miliwn yn anghylchol.

### Mae'r cynllunio ariannol a'r rheolaeth gyllidol yn dal yn gryf yn 2015-16 ac mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb eto

**36.** Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth o ran gosod a monitro strategaeth y gyllideb yn dal yn gryf. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth strategaeth y gyllideb gyda'r nod o gyflawni blaenoriaethau strategol a balans ariannol, ac i greu cronfa fuddsoddi a gosod cynllun sy'n mantoli ar gyfer 2015-16. Mae cynllunio ariannol yn rhan annatod o'r cylch cynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac nid oes proses gosod cyllideb sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sut, yn y dyfodol, y gall

ddyrannu cyllidebau ar draws blaenoriaethau strategol yn hytrach na strwythurau rheoli.

**37.** Mae trefniadau priodol wedi’u sefydlu i nodi arbedion posibl ar ddechrau’r flwyddyn ariannol a nododd yr Ymddiriedolaeth fod angen iddi wneud arbedion o £2.7 miliwn fel rhan o strategaeth y gyllideb. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi parhau â’i threfn o ‘fuddsoddi i arbed, arbed i fuddsoddi’ ac mae’r cynlluniau gwella costau yn dal i gael eu gosod ar 1.5 y cant o bob cyllideb dros y cyfnod cynllunio. Craffir ar gynlluniau gwneud arbedion a chânt eu herio.

**38.** Mae'r rheolaeth dros y gyllideb a’r rheolaeth ariannol yn ystod blwyddyn yn dda ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn helpu i symleiddio a chysoni cynifer â phosibl. Mae’r Ymddiriedolaeth yn monitro ei sefyllfa ariannol yn fisol mewn ffordd dryloyw a chyson gydag adroddiadau ariannol yn nodi’r rhesymau am danwario a gorwario, sy’n golygu bod y Bwrdd yn gallu craffu’n briodol.

**39.** Ym mis saith, mae’r Ymddiriedolaeth ar y trywydd cywir i fantoli’r gyllideb drwyddi draw yn 2015-16 gyda 59 y cant o’r arbedion blynyddol a gynlluniwyd wedi’u gwireddu. Yn y cyfamser, mae’r gwaith ar strategaeth cyllideb 2016-17 yn mynd rhagddo a chytunwyd yn derfynol ar egwyddorion y gyllideb erbyn hyn.

## Mae’r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau’i threfniadau llywodraethu a sicrwydd ac yn bwrw ymlaen â gwaith ar gynllunio integredig, rheoli risg a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau, er i’r gwaith o ddatblygu’r fframwaith sicrhau ansawdd fod yn arafach na’r bwriad

**40.** Mae’r adran hon o’r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau yn ymwneud â llywodraethu a sicrwydd y bwrdd, ac fe’i cyflwynir o dan y themâu bras isod:

- strwythurau’r sefydliad a chynllunio strategol;
- rheoli risg a sicrwydd y bwrdd; a
- llywodraethu ansawdd.

### Mae’r Ymddiriedolaeth wedi adolygu strwythurau’r sefydliad ac wedi cynyddu’r capasiti corfforaethol er mwyn helpu i wireddu’i blaenoriaethau strategol yn well

**41.** Yn gynnar yn 2015, ystyriodd yr Ymddiriedolaeth yr angen i drefnu strwythurau’r sefydliad yn well er mwyn iddynt helpu i wireddu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd newydd ac i gysoni’r saith portffolio gweithredu â ffrydiau gwaith y Cynllun Tymor Canolig Integredig, gwella’r cydbwysedd rhwng arbenigedd iechyd cyhoeddus a swyddogaethau corfforaethol, a chyfnerthu’r seilwaith corfforaethol. Cymeradwyodd y Bwrdd gynigion i ailddylunio ac ehangu’r tîm gweithredol, yn cynnwys newid y cyfrifoldebau portffolio ar ôl ymgynghori â’r staff yr effeithiai hynny arnynt. Lle rhoddwyd cyfrifoldebau ychwanegol i unigolion neu lle newidiwyd dynodiad rôl, aeth y swyddi drwy broses gwerthuso swydd a chyfweliad.

**42.** Mae saith cyfarwyddiaeth yn y sefydliad gyda nifer o swyddogaethau corfforaethol wedi’u hymgorffori i’r cyfarwyddiaethau a oedd yn bodoli’n barod fel bod llai o ddarnio

ac i wneud y llinellau adrodd yn gliriach. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi'r hwb angenrheidiol i adolygu'r strwythurau adrannol o dan bob cyfarwyddiaeth a, lle mae rhaid, mae arweinwyr y cyfarwyddiaethau yn sefydlu strwythurau adrannol newydd i wella effeithlonrwydd a chynyddu atebolrwydd

**43.** Mae cyfarfodydd wythnos y tîm gweithredol yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad corfforaethol o safbwynt cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynllun gweithredol, a cheir cyfarfodydd pwrpasol i ymdrin ag ansawdd a risg a datblygu'r sefydliad. Mae'r themâu i'w trafod yn cylchdroi'n wythnosol gyda chyfarwyddwyr adrannol yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sefydliad.

**44.** Cynyddwyd y capasiti a'r gallu ar draws nifer o swyddogaethau corfforaethol sy'n help i wireddu blaenoriaethau strategol – rhywbeth yr oedd mawr angen ei wneud – ac mae buddsoddi pellach yn cael ei gynllunio. Yn ystod y flwyddyn, recriwtiodd yr Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus i nifer o swyddi allweddol yng nghyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ac yn ddiweddar recriwtiwyd arbenigwr ym maes parhad busnes i gyfrannu at a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun parhad busnes trosfwaol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi hefyd mewn swyddi allweddol eraill ond mae'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl i recriwtio i'r swyddi hyn.

## Mae'r cynllun tymor canolig integredig tair blynedd yn datgan blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth ac mae wedi cael cymeradwyaeth y Gweinidogion

**45.** Mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau GIG baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n adlewyrchu amcanion cynllunio a chyflawni tymor hwy a fydd yn fodd i ddarparu gwasanaeth safonol saff a chynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y claf. Cynllun treigl tair blynedd yw'r Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau, y gweithlu a phenderfyniadau ariannol. Y llynedd, nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig a oedd wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2014-15 i 2016-17 gan nad oedd wedi'i integreiddio'n ddigonol â chynlluniau cyrff GIG eraill. Ni ofynnodd Llywodraeth Cymru am ailgyflwyno'r cynllun ond, yn hytrach, derbyniodd gynllun gweithredol blwyddyn ar gyfer 2014-15 a llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni tri chwarter o'r camau gweithredu yn y cynllun yn ystod y flwyddyn.

**46.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i wneud defnydd da o fframwaith cynllunio'r GIG, a chafodd ei Chynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2015-16 i 2017-18 ei gymeradwyo gan y Gweinidogion ym mis Mehefin. Mae'r cynllun yn adlewyrchu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth o wireddu 'Cymru iachach, hapusach a thecach', gweledigaeth sydd wedi cael ei datgan yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Cytunwyd gyda'r byrddau iechyd lleol ar dair o'r saith blaenoriaeth strategol a nodwyd yn y cynllun i sicrhau ymdrin mewn ffordd fwy integredig â chyflawni ym maes iechyd cyhoeddus; mae'r pedair blaenoriaeth arall yn rhai i'r Ymddiriedolaeth yn benodol.

**47.** Yn sail i'r saith blaenoriaeth mae nifer o amcanion strategol, sawl un yn ymwneud yn benodol â gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth â'r cyhoedd, cymunedau a darparwyr gwasanaethau i wireddu'r

blaenoriaethau strategol a nodir yn y cynllun. Yn ogystal â chytuno ar flaenoriaethau strategol gyda'r byrddau iechyd lleol, mae'r Ymddiriedolaeth yn creu trefniadau partneriaeth ac wedi cytuno'n ddiweddar ar femorandwm dealltwriaeth gyda Heddlu De Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru i wella iechyd a lles cymunedau lleol.

**48.** Mae eglurder o ran y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am gyflawni blaenoriaethau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a nodwyd yn glir gerrig milltir blynyddol, camau gweithredu lefel uchel sydd wedi'u bwriadu i wella ansawdd ac effeithiolrwydd a disgrifiad o sut bydd llwyddiant yn edrych erbyn mis Mawrth 2018. Nododd y tîm gweithredol arweinydd ar gyfer pob blaenoriaeth strategol. Mae'r arweinwyr hyn yn gyfrifol am oruchwylio datblygu agweddau perthnasol o'r cynllun, tra mae cyfarwyddwyr adrannol yn atebol am y cyflenwi. Mae'r cynllun gweithredol blynyddol yn nodi'r camau niferus i'w cyflawni yn erbyn y cerrig milltir ym mlwyddyn gyntaf y cynllun gan ddyrannu cyfrifoldeb yn glir i gyfarwyddiaethau, adrannau a staff unigol. Bu'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r staff drwy gyfres o ddigwyddiadau, o dan y teitl 'Mission Possible', y daeth nifer dda iddynt. Yma eglurwyd blaenoriaethau cyfredol y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r amcanion cysylltiol er mwyn i unigolion ddeall eu cyfraniad nhw o ran cyflenwi.

**49.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau'r ffordd y mae'n monitro perfformiad ac yn darparu adroddiadau ac mae llinellau atebolrwydd wedi'u sefydlu ar bob lefel o'r sefydliad ac wedi'u nodi'n glir yn y fframwaith adrodd-ar-berfformiad. Caiff y cynnydd yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynllun gweithredol blynyddol ei drafod mewn cyfarfodydd busnes adrannol misol ac yn adolygiadau perfformiad chwe misol y cyfarwyddiaethau, a rhoddir adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Bwrdd drwy'r adroddiad perfformiad.

**50.** Er bod cynllun gweithredol blynyddol 2015-16 yn disgrifio'n fyr y cynnydd a wnaed y llynedd, nid yw'n nodi'n glir y camau gweithredu hynny a gariwyd drosodd lle'r oedd y cynnydd yn arafach na'r disgwyl, na sut y câi monitro parhaus ei gynnal. Mae'n aneglur o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a oedd y Bwrdd yn ymwybodol o'r cynnydd drwyddo draw ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol gan na chyflwynwyd adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi ei bod yn y dyfodol yn bwriadu rhoi gwybod am y camau gweithredu sy'n cael eu cario drosodd yn adroddiad perfformiad chwarter 4 i'r Bwrdd.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau'r trefniadau i gefnogi ffordd fwy integredig, o'r gwaelod i fyny, o ymdrin â chynllunio

**51.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gryfhau ei threfn gynllunio ac, ar sail gwersi a ddysgwyd o gylch cynllunio'r llynedd, dechreuodd y cylch cynllunio ac ymwneud y Bwrdd yn gynharach nag yn y gorffennol. Mae amserlen glir ar gyfer adnewyddu'r[2]

[2] Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 yn ei gwneud yn glir, os yw sefydliadau GIG wedi bod yn cyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd wedi'i gymeradwyo a'u bod yn parhau i wneud hynny, y gallant ei adnewyddu yn hytrach na'i ailysgrifennu.

Cynllun Tymor Canolig Integredig erbyn mis Rhagfyr 2015 a datblygu cynllun gweithredol 2016-17.

**52.** Mae canllawiau cynllunio manwl yn gefn i'r symud yn yr Ymddiriedolaeth tuag at weithredu cynhwysol, 'o'r gwaelod i fyny', ac mae'r gweithlu ac elfennau ariannol yn rhan annatod o'r broses gynllunio. Caiff y gwaith o ddatblygu cynlluniau adrannol ei oruchwylio gan y cyfarwyddwyr gweithredol ynghyd â thimau rheoli'r cyfarwyddiaethau. Mae'r timau rheoli adrannol yn defnyddio egwyddorion cynllunio y cytunwyd arnynt wrth nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd cerrig milltir blwyddyn 2 yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'r camau gweithredu hyn sydd yn y pen draw yn llunio cynllun gweithredol 2016-17. Maent yn gyfrifol hefyd am gysylltu â staff, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn iddynt gyfrannu at y cynlluniau gweithredol, tra mae partneriaeth busnes Adnoddau Dynol yr Ymddiriedolaeth yn helpu'r timau rheoli adrannol i nodi'r gofynion o ran gweithlu.

**53.** Lle mae hynny'n bosibl, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella'r camau gweithredu yn y cynlluniau gweithredol sy'n deillio o hunanasesiadau yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal a gofynion deddfwriaethol, megis y Ddeddf Cydraddoldeb neu Safonau'r Gymraeg, er mwyn symleiddio'r cynlluniau.

**54.** Mae grŵp cyd-drefnu integredig newydd yn cwrdd bob pythefnos i oruchwylio gweithrediad fframwaith cynllunio'r Ymddiriedolaeth ac yn cyflwyno adroddiad cynnydd misol i'r tîm gweithredol. Mae'r grŵp yn gweithredu yn unol â chylch gorchwyl clir y cytunodd y tîm gweithredol arno ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o feysydd cynllunio, y gweithlu, cyllid, ansawdd a gwasanaethau.

**55.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn ehangu'i chapasiti a'i gallu ym maes cynllunio ac mae dwy swydd ychwanegol wedi'u nodi i gyd-drefnu'r broses gynllunio o ddydd i ddydd a rheoli'r gwaith adrodd ar berfformiad. Yn y cyfamser, mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu sgiliau cynllunio fel rhan o ddatblygiad sefydliadol ehangach. Yn ogystal, mae staff sy'n gyfrifol am gynllunio yn cymryd rhan ar grwpiau cynllunio Cymru gyfan i rannu arbenigedd a dysgu.

### Mae'r Bwrdd yn dal i ymrwymo i ddatblygu'i effeithiolrwydd ac mae'r gwaith i fynd i'r afael â phenodi cyfarwyddwyr anweithredol a'r gofynion olyniaeth yn dechrau cael effaith

**56.** Mae'r Bwrdd yn dal i ymrwymo i ddatblygu'i effeithiolrwydd. Mae rhaglen ddatblygu'r Bwrdd ar waith ers tro bellach gyda chymysgedd o gyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu defnyddio i roi i aelodau'r Bwrdd y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Mae oedi o hyd o ran penodi cyfarwyddwr anweithredol i gynrychioli llywodraeth leol ac er i'r swydd gael ei llenwi ar sail dros dro ym mis Mai 2014, mae'r risg yn deillio o drosiant yn ychwanegu at y pwysau amser sydd ar y cyfarwyddwyr anweithredol presennol yn barod ac yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael iddynt ar gyfer craffu a sicrwydd. Mae camau ar waith i ymdrin â chynllunio olyniaeth a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r cynllun gweithredol. Er bod llwyddiant yn dibynnu i raddau helaeth ar Lywodraeth Cymru, mae'r camau a gymerwyd yn ddiweddar yn cael effaith.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn trawsnewid y trefniadau rheoli risg ond cymer beth amser cyn iddynt ennill eu plwyf a chael eu hadlewyrchu mewn fframwaith sicrwydd bwrdd mwy dynamig

**57.** Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth asesiad llinell sylfaen o'i threfniadau rheoli risg gan ddefnyddio fframwaith asesu rheoli-risg Trysorlys EM. Barnwyd bod y trefniadau rheoli risg yn 'foddhaol' ond nodwyd gwendidau, yn enwedig ddiffyg hyfforddiant ar reoli risg, dim archwaeth am risg wedi'i datgan yn glir a dim proses glir i uwchgyfeirio neu ddat-uwchgyfeirio risg. Yn dilyn yr asesiad llinell sylfaen, symudodd yr Ymddiriedolaeth yn gyflym i ddatblygu fframwaith rheoli risg, wedi'i seilio ar ISO[3] 31000 ar gyfer rheoli risg. Cymeradwyodd y Bwrdd y fframwaith rheoli risg yn ddiweddar. Yn gefn iddo mae cynllun gweithredu lefel uchel a rhaglen hyfforddi i sefydlu rheoli risg yn holl ymarfer y sefydliad, yn cynnwys nodi a disgrifio risg yn ogystal â phrosesau i uwchgyfeirio a dat-uwchgyfeirio risg. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i drawsnewid arferion a phrosesau rheoli risg a'i nod yw dangos gwelliannau, gan symud o 'boddhaol' i 'rhagorol' yn ystod oes y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

**58.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn 'adeiladu' fframwaith sicrwydd newydd i'r bwrdd i sicrhau ei bod yn ddogfen fyw, ddynamig, sy'n help i'r Bwrdd gyflawni'i gyfrifoldeb i reoli risgiau allweddol o safbwynt cyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Er bod pensaernïaeth y fframwaith sicrwydd newydd bron yn barod, cymer beth amser iddo gael ei boblogi'n llwyr â'r risgiau strategol ac i ddarparu datganiad archwaeth am risg, gan ei fod yn dibynnu ar welliannau i'r ffordd y caiff risgiau eu hadnabod a'u cofnodi. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd yn dal i ddibynnu ar y gofrestr risg gorfforaethol ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu proses i 'fynd at wraidd y mater' i helpu i graffu'n fwy trylwyr ar risgiau unigol ar y gofrestr risg.

**59.** Mae adolygiad o bwyllgorau'r Bwrdd wedi cael ei gynllunio i sicrhau bod y strwythurau, y swyddogaethau a'r aelodaeth yn darparu trosolwg briodol o'r prif risgiau yn gysylltiedig â phob blaenoriaeth strategol a nodwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'u bod yn craffu arnynt. Unwaith y bydd y fframwaith sicrwydd wedi'i gwblhau, bwriedir priodoli pob blaenoriaeth strategol a'r risgiau allweddol i arweinydd gweithredol a'u dyrannu i bwyllgor penodol o'r Bwrdd gyda'r Pwyllgor Archwilio yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a fframwaith sicrwydd y Bwrdd.

**60.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli argymhellion a wnaed fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio yn ystod 2015 ac ymateb iddynt. Canfu'r gwaith hwn fod proses weinyddol y Pwyllgor Archwilio i olrhain sut mae'r argymhellion archwilio yn cael eu rhoi ar waith yn ymddangos yn gadarn, ar y cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynyddu'i lefel o graffu mewn sefyllfaoedd lle na chaiff camau gweithredu yn deillio o archwiliad eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol neu lle gwneir cais am estyniad amser.

[3] Y Sefydliad Safoni Rhyngwladol.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'r pwyllgorau allweddol at ei gilydd yn cefnogi craffu a sicrwydd ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu mesurau ehangach i ymdrin â phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ac ansawdd

**61.** Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi'r dangosyddion perfformiad lefel uchel (y fframwaith cyflawni) sy'n cael eu monitro fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth. Ni chyflwynir adroddiadau ar yr holl ddangosyddion i'r Bwrdd, er nad yw hyn yn cael ei wneud yn glir yn y cynllun. Yn ystod 2015, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i adnewyddu'i threfniadau adrodd ar berfformiad a rheoli perfformiad. Fel rhan o'r broses hon, adolygwyd y dangosyddion perfformiad presennol a datblygwyd cynigion diwygiedig o ran y dangosyddion hynny a ddylai gael eu cynnwys yn yr adroddiadau perfformiad misol yn y dyfodol. Adlewyrchir y trefniadau a sefydlwyd yn Fframwaith Perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adnewyddu'r fframwaith cyflawni a gynhwysir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2016-17 i adlewyrchu'r newidiadau hyn, yn ogystal â nodi'r dangosyddion hynny yr adroddir arnynt i'r Bwrdd.

**62.** Er nad ydynt yn cyd-fynd yn benodol â'r saith blaenoriaeth strategol, mae'r dangosyddion perfformiad wedi cael eu mapio yn eu herbyn. Mae'r dangosyddion perfformiad yn cwmpasu gwasanaethau allweddol, rhaglenni gwella iechyd cenedlaethol, rhaglenni rheoli newid, targedau iechyd cyhoeddus cenedlaethol, cwynion a digwyddiadau, y gweithlu a chyllid. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ystod o fesurau i ddangos ac olrhain effaith y gwaith hwn, yn arbennig o safbwynt cyd-drefnu dulliau aml-system o wella iechyd y boblogaeth.

**63.** Caiff adroddiadau perfformiad eu paratoi'n fisol a'u rhannu â'r Bwrdd mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. Mae defnyddio'r system goleuadau traffig yn barhaus ac mewn modd cyson yn sicrhau ei bod yn hawdd gweld perfformiad gwael o ran cynnydd yn erbyn targedau iechyd cyhoeddus allweddol, dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chamau gweithredu yn y cynllun gweithredol blynyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn symleiddio'r adroddiadau perfformiad i'w gwneud yn haws eu darllen ond mae angen iddi ystyried sut y bydd yn crynhoi'r cynnydd drwyddi draw tuag at gyrraedd cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

**64.** Mae dangosfwrdd syml yn dangos perfformiad yn erbyn targedau iechyd cyhoeddus Fframwaith Cyflawni'r GIG yn glir ac mae'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn y cynllun gweithredol yn cael ei gyflwyno'n fwy cryno eleni o'i gymharu â'r llynedd, gyda'r camau gweithredu wedi'u codio gan ddefnyddio'r system goleuadau traffig. Mae'r dangosfwrdd perfformiad gwasanaethau a ymgorfforwyd yn yr adroddiad perfformiad yn cymharu perfformiad misol a/neu chwarterol yn erbyn pob dangosydd. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phrydlondeb ac ansawdd y data.

**65.** Mae'r dangosfwrdd perfformiad gwasanaethau yn nodi materion sy'n effeithio ar berfformiad a'r camau cywiro sy'n ofynnol lle mae'r perfformiad fwy na 10 y cant islaw'r targed. Manylir mewn atodiad ar holl ddangosyddion perfformiad perthnasol y gwasanaethau, eu trywydd a'r adroddiadau eithrio, yn cynnwys tueddiadau. Lle mae'r perfformiad yn dal yn arbennig o wael, mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi cynlluniau adfer ar waith sy'n cael eu monitro'n rheolaidd gan y tîm gweithredol, a chyflwynir adroddiad arnynt i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y perfformiad yn erbyn rhai

dangosyddion allweddol yn ddibynnol ar i sefydliadau eraill gyflawni. Er bod y Bwrdd yn hyderus y bydd y cynlluniau adfer yn arwain at welliannau o ran perfformiad, mae'n ceisio sicrwydd fod trefniadau priodol wedi'u sefydlu i uwchgyfeirio'r risg i iechyd a lles y boblogaeth os bydd y perfformiad yn parhau islaw'r targed.

**66.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i gryfhau'r adroddiadau ar berfformiad. Mae'n dal i ystyried sut mae ymgorffori mesurau ehangach o brofiad defnyddwyr gwasanaethau yn ei hadroddiadau perfformiad, ar wahân i fesurau anuniongyrchol ar ffurf cwynion a digwyddiadau. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i gipio o'r dangosfwrdd perfformiad y gwersi a ddysgir o adborth defnyddwyr gwasanaethau ac i adrodd arnynt mewn ffordd ystyrlon.

### Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a cheisio adborth yn dal i esblygu

**67.** Yn 2014, argymhellais fod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried cynnwys straeon defnyddwyr gwasanaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac yn datblygu ffordd o roi cyhoeddusrwydd i welliannau sy'n deillio o adborth. Mae straeon defnyddwyr gwasanaethau yn dal yn nodwedd reolaidd o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn rhannu'r negeseuon o'r straeon hynny, ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd a chamau cywiro, mewn cyfarfodydd Bwrdd dilynol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i weithio i ganfod y ffordd fwyaf effeithiol o ystyried straeon defnyddwyr gwasanaethau gyda'r Bwrdd.

**68.** Mae straeon defnyddwyr gwasanaethau a rennir gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn tarddu o'r gwasanaethau sgrinio lle caiff profiad defnyddwyr gwasanaethau ei drafod yn rheolaidd fel rhan o'r cyfarfodydd rheolaidd. Mae 'Sgrinio am Oes', gwefan yr adran sgrinio, yn dal i ddarparu clipiau fideo byr o unigolion yn sôn am eu profiadau o wasanaethau sgrinio. Mae'r wefan hefyd yn cyhoeddi'r camau a gymerir mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â chyhoeddi sylwadau canmoliaethus a phrofiadau cadarnhaol.

**69.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn elwa yn sgil penodol swyddog pwrpasol i arwain ym maes profiad defnyddwyr gwasanaethau. Bydd y swyddog yn helpu i sicrhau gweithredu mwy cydlynus, wedi'i gyd-drefnu'n well, o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chyrff trydydd sector yng ngwaith yr Ymddiriedolaeth. Daeth nifer dda i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi gyda mwy na 40 o ddefnyddwyr gwasanaethau neu gynrychiolwyr trydydd sector yn bresennol, gan ei wneud yn ddigwyddiad bywiog, yn cynnig llawer o wybodaeth.

70. Mae'r Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Dysgu wedi hen ennill ei blwyf erbyn hyn ac mae'r ffordd y caiff cyfarfodydd y panel eu trefnu yn newid i sicrhau digon o amser i gyfraniadau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n Panel yn fecanwaith er adnabod y grwpiau neu'r defnyddwyr gwasanaethau y mae'r sefydliad yn ymgysylltu'n rheolaidd â nhw ac mae cynllun yr Ymddiriedolaeth i sefydlu fforwm defnyddwyr gwasanaethau i Gymru gyfan yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd y fforwm hwn yn enghraifft o gydgynhyrchu effeithiol gyda'r fforwm yn helpu'r sefydliad cyfan i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn ei waith.

71. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran sicrhau ffordd gyson o gasglu adborth gan ddefnyddwyr amrywiol ei gwasanaethau. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar y tri chwestiwn craidd a dynnwyd o'r arolwg cenedlaethol o brofiad defnyddwyr gwasanaethau, ar ôl eu profi. Mae pa mor aml y gofynnir am adborth yn dibynnu ar y gwasanaeth, a chaiff staff eu hannog i gasglu adborth yn flynyddol o leiaf. Ar hyn o bryd, nid oes cytundeb ynglŷn â nifer y defnyddwyr y dylai gwasanaethau geisio'u cyrraedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen rhagor o waith i gefnogi staff i gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth annodweddiadol, megis ymarferwyr cyffredinol neu staff ward mewn ysbytai sy'n gofyn am brofion microbiolegol. Yn ogystal â datblygu dull cyson o gasglu adborth, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i ddatblygu ffyrdd cyson o roi gwybod i'r cyhoedd sut y caiff eu hadborth ei ddefnyddio, ynghyd â deall pa wybodaeth mae'r cyhoedd am ei chael ac ym mha fformat.

72. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd tuag at sicrhau bod dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd yn fwy hygyrch. Mae fersiynau hawdd eu darllen o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gael ac mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain ac mewn fersiwn sain. Rhoddwyd y nod grisial 'Plain English' i'r Datganiad Ansawdd Blynyddol llawn Saesneg.

## Mae'r trefniadau i ddysgu o gwynion a digwyddiadau yn dal i wella

73. Mae'r angen i ddysgu o gwynion, digwyddiadau a hawliadau yn dyngedfennol er mwyn gwella ansawdd a diogelwch. Y llynedd, dywedais fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cryfhau'r trefniadau i ddysgu o bryderon, a bod yr adolygiad blynyddol gan Gronfa Risg Cymru o'r safon o ran pryderon a hawliadau iawndal yn dangos gwelliant parhaus. Nid yw'n bosibl llunio cymariaethau ag asesiadau blaenorol gan fod y dull asesu wedi newid. Serch hynny, roedd y sgôr dysgu o ddigwyddiadau yn 77 y cant, yr uchaf yng Nghymru, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (55 y cant). Fodd bynnag, nododd Cronfa Risg Cymru nad oes system i sicrhau ansawdd y wybodaeth a geir am y dysgu ac am effeithiolrwydd y camau a gymerir i leihau'r risg o ailddigwydd, nac i ddangos pa mor gyflawn yw'r wybodaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod weithiau'n anodd darparu tystiolaeth sy'n dangos bod dysgu wedi ymwreiddio oherwydd y ddibyniaeth ar sefydliadau eraill i gymryd camau cywiro a gwneud yn siŵr fod y rheini'n cael eu sefydlu'n gadarn, ac mae'n gweithio i 'wneud y cylch yn gyflawn'.

74. Y llynedd, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth dempled adrodd i gipio, mewn ffordd gyson, y dysgu a'r adborth o bryderon a hawliadau ar draws ystod amrywiol o wasanaethau a thimau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod angen rhagor o waith i wella ansawdd y

wybodaeth sy'n cael ei chipio er mwyn iddi fod yn glir ynglŷn â sut y caiff gwersi eu dysgu a'u gwreiddio. Yn y cyfamser, mae cynlluniau wedi'u sefydlu i archwilio'r gwersi a ddysgwyd o bryderon a hawliadau.

**75.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wneud y system gwynion yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaethau. Tynnodd digwyddiadau 'Mission Possible' yr Ymddiriedolaeth sylw at faterion brandio yn ymwneud â gwasanaethau sgrinio unigol, er enghraifft, fod ganddynt eu 'brand' a'u gwefan eu hunain, ac nad oes modd cyrchu at y gwedudalennau hyn o 'dudalen hafan' yr Ymddiriedolaeth mewn 'un clic'. Mae'r tîm Cyfathrebu yn arwain gwaith i adolygu gwedudalennau niferus yr Ymddiriedolaeth er mwyn asesu cysondeb a sicrhau bod y broses er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau roi adborth, yn cynnwys gwneud cwyn, yn fwy gweladwy.

## Mae'r gwaith o ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd a phroses gwella ansawdd wedi bod yn arafach na'r disgwyl

**76.** Yn 2014, nodais fod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'i threfniadau ansawdd a diogelwch, yn ogystal â datblygu fframwaith llywodraethu ansawdd, gyda'r bwriad o'u cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gynnar yn 2015. Bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl oherwydd anawsterau i recriwtio capasiti ychwanegol. Er iddi fethu penodi yn gynharach yn y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y bydd arweinydd ansawdd mewn swydd yn gynnar yn 2016. Fodd bynnag, mae sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn rhan annatod o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda amserlen weithredu glir dros dair blynedd.

**77.** Yn ystod 2015, mapiodd yr Ymddiriedolaeth weithgarwch archwilio clinigol ar draws y sefydliad. Canfu, ar wahân i'r gwasanaethau sgrinio a microbioleg, mai ad hoc yw'r gweithgarwch archwilio clinigol yn gyffredinol a'i fod yn cael ei adrodd yn anghyson i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cyflwynwyd cynllun archwilio clinigol cyntaf yr Ymddiriedolaeth i'w Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Hydref gyda threfniadau'n cael eu datblygu ar gyfer blaen gynllunio.

**78.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i adeiladu ar ei gwaith i gael staff i adolygu trefniadau ansawdd a diogelwch yn sgil methiannau llywodraethu mewn sefydliadau eraill. Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth y digwyddiadau 'Mission Possible' yn ddiweddar i edrych ar agweddau o ansawdd mewn perthynas â gwaith unigolion eu hunain. Ymysg y camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod mae hwyluso'r ffordd i staff fanteisio ar hyfforddiant ac achrediad 'Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd' i gefnogi cynlluniau gwella ansawdd ar draws gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

**79.** Yn ddiweddar sefydlodd yr Ymddiriedolaeth grŵp rheoli ansawdd i oruchwylio'r craffu a'r monitro ar ansawdd ar hyd a lled y sefydliad. Mae'r grŵp yn cynnwys cyfarwyddwyr adrannol neu ddirprwyon enwebedig gydag awdurdod i wneud penderfyniadau. Un o dasgau cyntaf y grŵp yw asesu mesuriadau ansawdd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws adrannau, yn ogystal ag asesu sut y gallai'r Ymddiriedolaeth ddarparu adroddiadau ar y mesurau hyn mewn modd cyson, fel rhan o drefniadau llywodraethu ansawdd.

## Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu, datblygu sefydliadol a rheoli newid, a bod lle i wella'r trefniadau o ran cadw copi wrth gefn o ddata a'i adfer, ac ymgysylltu â'r agenda TGCh glinigol, hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion am amser segur

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu, datblygu sefydliadol a rheoli newid

**80.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut mae nifer o elfennau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn cael eu rheoli. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – elfennau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

| Crynodeb o'r canfyddiadau |
| --- |
| **Rheoli newid:** Mae rhaglenni newid strategol yn sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd ac mae gwaith i gryfhau'r capasiti a'r gallu rheoli newid yn parhau.<br>1. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau'i chapasiti a'i gallu ym maes rheoli newid ar draws y sefydliad. Cafodd swyddogaethau rheoli rhaglenni eu hymgorffori yn y gyfarwyddiaeth gweithrediadau a chyllid fel rhan o newidiadau diweddar i strwythur y cyfarwyddiaethau, gan sicrhau cyswllt da â gwasanaethau corfforaethol allweddol i hwyluso newid.<br>2. Yn sail i drefn rheoli newid yr Ymddiriedolaeth mae methodolegau rheoli rhaglenni priodol, yn cynnwys cynlluniau gweithredu manwl, adnodd pwrpasol i reoli rhaglenni, a llinellau atebolrwydd ac adrodd clir. Mae nifer o raglenni newid strategol ffurfiol ac uchelgeisiol yn helpu i roi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar waith, er enghraifft, adleoli mwy na 500 o staff i un safle yng Nghaerdydd. Caiff y cynnydd ar y rhaglenni newid strategol sy'n gefn i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ei adrodd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a rhoddir diweddariadau chwe misol drwy adroddiad perfformiad y cynllun gweithredol.<br>3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i roi i staff sgiliau da mewn rheoli prosiectau ac i arwain a rheoli newid fel rhan o'i rhaglen i ddatblygu'r sefydliad. Mae gweithdai'n cael eu cynnal i gefnogi rheolwyr sy'n arwain newid ac yn ôl yr arwyddion cynnar mae'r adborth yn gadarnhaol. Lle nodir anghenion datblygu sefydliadol fel rhan o brosiectau rheoli newid, mae angen bwydo'r rhain i'r rhaglen ehangach i ddatblygu'r sefydliad i sicrhau bod yna raglen waith gydlynus. |

## Crynodeb o'r canfyddiadau

**Datblygu sefydliadol:** Mae datblygu sefydliadol yn rhan annatod o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n sylweddol yn ei gallu rheoli ac arwain.

1. Mae cynllun deg pwynt i 'Ddatblygu'r Sefydliad' yn rhan annatod o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda phob pwynt yn cynrychioli amcan strategol ac yn cwmpasu ystod eang o elfennau. Y llynedd, sefydlodd y Bwrdd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol i ddarparu trosolwg a chraffu.
2. Nododd arolwg staff GIG 2013 fod datblygu rheolaeth yn wendid ac ar y pryd nodais fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio i gryfhau'r gallu rheoli ac arwain. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau dadansoddiad anghenion dysgu o safbwynt y gallu rheoli ac arwain, ac wedi comisiynu rhaglen i ddatblygu'r rheoli a'r arwain. Rhoddwyd hon ar waith ym mis Ionawr 2015. Mae'r rhaglen yn cynnwys amryw o fodiwlau a dosbarthiadau meistr. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod yr adborth yn gadarnhaol a bod y galw'n fwy na'r cyflenwad ac felly mae wedi neilltuo arian ychwanegol i redeg rhagor o fodiwlau sylfaen i ddiwallu'r galw. Mae rhaglen i'r rhai sy'n dymuno bod yn rheolwyr yn cael ei chynllunio'n ddiweddarach eleni fel rhan o'r gwaith i reoli doniau a datblygu rheolwyr ac arweinwyr y dyfodol.
3. Yn ychwanegol at fodiwlau dysgu ffurfiol a dosbarthiadau meistr, mae'r Ymddiriedolaeth wedi prynu mynediad at becyn cymorth gwybodaeth ar-lein drwy'r British Institute for Learning and Development y gall pawb o'r staff, nid dim ond rheolwyr, fanteisio arno. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn datblygu canllawiau 'Sut mae' ar bolisïau allweddol yn ymwneud ag adnoddau dynol a'r gweithle.

**Cynllunio'r gweithlu:** Cryfhawyd elfen cynllunio'r gweithlu a dylai cydleoli staff mewn swyddfeydd newydd yn 2016 helpu i hwyluso mwy o gydweithredu a hyblygrwydd.

1. Yn 2013, nodais fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran cynllunio'r gweithlu a'i bod yn hyderus y byddai ganddi gynllun gweithlu cadarn i helpu i gyflawni'r amcanion strategol ar y pryd. Arweiniodd y gofyniad wedi hynny i ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig at gynnydd pellach o ran cynllunio'r gweithlu, gyda'r cyfarwyddiaethau a'r adrannau yn edrych yn feirniadol ar y gofynion gweithlu gan ystyried mwy na dim ond niferoedd absoliwt a chymysgedd sgiliau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu tri chynllun gweithlu sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae wedi gofyn i'r Archwilwyr Mewnol adolygu cadernid y cynlluniau hyn a digonolrwydd y trefniadau cynllunio'r gweithlu yn gynnar yn 2016.
2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi feithrin mwy o gydweithredu a hyblygrwydd drwy well gwaith tîm ar draws ffiniau traddodiadol. Bydd yn haws cael mwy o gydweithredu pan fydd nifer sylweddol o staff yn symud i swyddfeydd newydd yn 2016.
3. Mae tîm y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yn paratoi cynllun dysgu a datblygu wedi'i gostio i ymdrin â'r gofynion sgiliau a nodwyd fel rhan o broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'n datblygu fframwaith cynllunio olyniaeth a rheoli doniau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi rheolwr recriwtio a dawn yn ddiweddar i symud y gwaith hwn ymlaen.
4. Mae recriwtio i dîm y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol wedi helpu i gryfhau gallu'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio'r system cofnodion staff electronig wrth gasglu gwybodaeth am y gweithlu'n rheolaidd ac i helpu i gyflwyno'r system i reolwyr a gweithwyr fel eu bod nhw'n gallu'i defnyddio eu hunain. Bu oedi yn y broses gyflwyno yn gynharach yn y flwyddyn, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd y cyflwyno wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2016. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau arbenigol o ran defnyddio'r system cofnodion staff electronig er mwyn cynyddu cadernid ar draws y sefydliad.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

**Cynllunio'r gweithlu:** Cryfhawyd elfen cynllunio'r gweithlu a dylai cydleoli staff mewn swyddfeydd newydd yn 2016 helpu i hwyluso mwy o gydweithredu a hyblygrwydd.

5. Mae'r Ymddiriedolaeth yn lansio 'Fy Nghyfraniad i', y system arfarnu newydd, yn 2016. Bydd y system newydd yn cryfhau'r cyswllt rhwng y broses arfarnu a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a Pholisi Datblygiad Cyflog GIG Cymru. Mae gweithdai hyfforddi a deunyddiau hyfforddi yn cael eu datblygu, gan adlewyrchu'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r arolwg staff a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Mae mwy na thri chwarter y staff a ymatebodd i'r arolwg wedi cael arfarniad yn y 12 mis diwethaf ond roedd y gyfradd ymateb yn eithriadol o isel ac mae'r Ymddiriedolaeth yn trin y canfyddiadau â gofal. Er gwaethaf y cafeatau hyn, mae'r canfyddiadau'n awgrymu gwelliant o ran cydymffurfio o'i gymharu â chanfyddiadau arolwg staff GIG 2013 pan nad oedd ond ychydig mwy na hanner y staff a ymatebodd wedi cael arfarniad.
6. Mae'r cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn dal islaw targed yr Ymddiriedolaeth (90 y cant) yn gyson. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio cynyddu'r cydymffurfio minimal â'r sgiliau craidd, fel sydd wedi'i nodi yn Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau'r GIG, erbyn diwedd mis Mawrth 2016 ac mae cydymffurfio wedi'i gynnwys yn y fframwaith cyflawni perfformiad am y tro cyntaf. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn dal i fonitro'r cydymffurfio a cheisio sicrwydd bod y camau cywiro i wella'r cydymffurfio yn effeithiol.
7. Mae gan y gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol raglen waith ddatblygedig i helpu staff nyrsio i baratoi ar gyfer ailddilysu nyrsys, trefn sy'n cael ei chyflwyno gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o fis Ebrill 2016. Trefnodd y gyfarwyddiaeth gyfres o weithdai i gyflwyno'r broses newydd a'r gofynion ar unigolion a rheolwyr. Adeg ysgrifennu'r asesiad hwn, dim ond ychydig dros hanner y staff mewn rolau nyrsio oedd wedi mynychu'r gweithdai hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi staff nyrsio cofrestredig sy'n gweithio mewn rolau ar wahân i nyrsio i ddarparu cefnogaeth ar gyfer yr ailddilysu ac i nodi rheolwyr nad ydynt yn nyrsio sy'n eu helpu i gyflawni'i rôl yn y broses ailddilysu.
8. Mae'r gwaith i nodi staff sy'n gweithio mewn rolau fel gweithwyr cymorth gofal iechyd bron â'i gwblhau. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn elwa o arian i helpu i weithredu'r Fframwaith Sgiliau a Gyrfa i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd y cytunodd GIG Cymru arno'n ddiweddar, a gaiff ei gyflwyno o fis Ebrill 2016.
9. O'r blaen roedd gan yr Ymddiriedolaeth ddau gytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gyda byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol tra oedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu ar sail ffi-fesul-ymweliad mewn byrddau iechyd eraill. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar CLG gydag Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar sail Cymru gyfan. Cyflwynwyd y gwasanaeth newydd o fis Medi 2015 am flwyddyn. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu'r effaith, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud bod yr adborth yn weddol gadarnhaol.

### Mae mesurau rheoli priodol wedi'u sefydlu i ddarparu copïau wrth gefn ac adfer data sy'n cael ei letya a'i gynnal gan yr Ymddiriedolaeth, er bod lle i gryfhau hyn mewn nifer o feysydd, ond mae'r trefniadau i gadw copi wrth gefn o ddata sy'n cael ei reoli gan drydydd partïon yn llai clir

**81.** Yn 2013, nodais mai dim ond yn rhannol yr oedd y mesurau i gadw copi wrth gefn o ddata wedi'u sefydlu. Canfu fy ngwaith dilynol fod gwelliannau wedi'u gwneud gyda mesurau priodol i gadw copïau wrth gefn ac adfer data sy'n cael ei letya a'i gynnal gan yr Ymddiriedolaeth, er bod lle i gryfhau hyn mewn nifer o feysydd. Yn y cyfamser, mae'r trefniadau i gadw copi wrth gefn o ddata sy'n cael ei reoli gan drydydd partïon yn llai clir. Y prif gasgliadau o'm hadolygiad o gadw copi wrth gefn o wybodaeth yw:

- mae'r dull cyffredinol o ddatblygu polisi gwybodeg yn anghyson gyda'r ddau dîm gwybodeg yn datblygu a gweithredu'u polisïau eu hunain;
- nid yw'r cyfrifoldeb am gadw copi wrth gefn o ddata ac adfer data bob amser yn glir, yn arbennig mewn perthynas â thrydydd partïon;
- caiff risgiau gwybodaeth eu nodi ar Datix ond mae'n llai eglur sut y caiff y risgiau hynny eu lleihau;
- mae'r gweithdrefnau i gadw copi o ddata yn yr Ymddiriedolaeth yn gyfredol at ei gilydd ond mae'r profi ffurfiol yn anghyson rhwng timau; ac
- mae'r mesurau i reoli mynediad corfforol at gopïau wrth gefn yn briodol gyda chopïau data wrth gefn yn cael eu storio'n ddiogel oddi ar y safle gyda chadernid digonol.

### Mae lefelau buddsoddi Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymharu'n dda â chyrff GIG eraill Cymru, ond mae ein gwaith diagnostig yn dangos bod modd gwella'r ymgysylltu â'r agenda TGCh, hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion am amser segur

**82.** Y prif gasgliadau o'm hadolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh yw:

- mae cyfanswm lefel y gwariant ar TGCh yn uwch na'r dau y cant o'r cyfanswm gwariant refeniw sy'n cael ei argymell; ar 3.8 y cant dyma'r uchaf yng Nghymru
- y lefelau staffio TGCh yw'r uchaf ymysg byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru, 29.3 cyfwerth ag amser llawn fesul 1,000 o staff o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 8.8 cyfwerth ag amser llawn fesul 1,000 o staff;
- er bod y staff yn gadarnhaol at ei gilydd, mae lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol yn is na byrddau iechyd eraill a gallai fod lle i integreiddio ymhellach;
- mae argaeledd PCs yn cymharu'n ffafriol â chyrff iechyd eraill Cymru ac mae'r staff yn fodlon â'u mynediad iddynt;
- mae staff yn gweld problemau o ran dibynadwyedd systemau ac nid oes cofnodion amser segur ar gyfer llawer o systemau;
- er gwaethaf y bylchau yn y trefniadau hyfforddi, mae'r staff yn gyffredinol yn teimlo'n hyfedr yn eu defnydd o systemau a gallant ddibynnu ar y wybodaeth sy'n cael ei dal arnynt; ac

- mae systemau TGCh clinigol yn helpu staff i ymgymryd â'u rolau er bod y staff, mewn cymhariaeth, yn ystyried y systemau'n anodd eu defnyddio.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Medi 2015 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Drefniadau Cadw Gwybodaeth Wrth Gefn | Mehefin 2015 |
| Adolygiad Diagnostig o Gapasiti ac Adnoddau TGCh | Rhagfyr 2015 |
| Asesiad Strwythuredig 2015 | Rhagfyr 2015 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2015 | Ebrill 2015 |

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt hefyd yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad Dilynol o Gontractau Meddygon Ymgynghorol | Mehefin 2015 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2015 y ffi archwilio arfaethedig o £151,155 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Cynllun Archwilio.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai'r rheolwyr wrthwneud mesurau rheoli yn bresennol ym mhob man. Oherwydd y gallai hynny ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, caiff ei hystyried yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodolrwydd cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tuedd; a<br>• gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i'r busnes arferol. | Adolygodd a phrofodd fy nhîm y meysydd hyn fel rhan o'r gwaith archwilio i lunio barn ac ni chanfu unrhyw gamddatganiadau perthnasol. |
| Dyletswydd ariannol yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau ei bod yn mantoli'r gyllideb o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn darged statudol ac yn risg arwyddocaol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu sail yr amcangyfrifon cyfrifyddu a'r croniadau diwedd blwyddyn i sicrhau eu bod yn gyflawn a dibynadwy. | Adolygodd a phrofodd fy nhîm y meysydd hyn fel rhan o'r gwaith archwilio i lunio barn ac ni chanfu unrhyw gamddatganiadau perthnasol. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei thargedau arbedion a'i tharged statudol i fantoli'r gyllideb. |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn paratoi i osod contract a reolir am ddarparu gwasanaeth microbioleg, gwerth £1.2 miliwn yn fras.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu dangos y contract fel trafodiad 'oddi ar y fantolen' yn ei chyfrifon ar sail y cyngor technegol y mae wedi'i gael. | Bydd fy nhîm archwilio yn edrych ymhellach ar y materion hyn yn ystod yr archwiliad, yn cynnwys:<br>• a geisiwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r contract lle mae hynny'n angenrheidiol; ac<br>• a yw'r driniaeth gyfrifyddu yn briodol. | Ni osododd yr Ymddiriedolaeth y contract yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15. Felly, bydd fy nhîm yn ystyried y mater hwn fel rhan o archwiliad 2015-16. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru